

MODEL O BOLISI GOFAL PERSONOL I YSGOLION

Bydd yr enghraifft ganlynol yn gymorth i ysgolion lunio'u polisïau'u hunain.

Cyflwyniad

Mae Ysgol (**Enw'r Ysgol neu Ganolfan**) wedi ymroi i ofalu bod y cyfan o'r staff sydd yn gyfrifol am roi gofal personol i blant a phobl ifainc yn ymgymryd â'u dyletswyddau mewn ffordd broffesiynol bob tro.

Wrth ymgymryd â gofal personol, rydyn ni'n cydnabod bod gofyn trin y plant i gyd â pharch. Ni ddylid rhoi gofal i blentyn mewn ffordd sy'n peri gofid, embaras, pryder neu boen. Mae lles ac urddas plentyn neu berson ifanc o'r pwys mwyaf a bydd preifatrwydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei barchu.

Rhesymeg

Nod hyn o ganllawiau ydy pennu'r gweithdrefnau hynny sy'n:

- diogelu **plant**, pobl ifainc a staff trwy fynd ati mewn ffordd gyson yn rhan o fframwaith, a
- cydnabod swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb sydd ynghlŷn â rhoi gofal personol i blant a phobl ifainc.

Rydyn ni o'r farn y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. O ganlyniad i hyn, bydd yr angen yn codi i roi gofal personol mewn ystod o ganolfannau neu leoedd gwahanol. Felly, mae hi'n hollbwysig bod cyfleusterau ac offer addas ar gael lle bynnag bo'n bosibl.

Rydyn ni'n cydnabod bod gofal personol yn codi rhai materion cymhleth. Er efallai dydy hi ddim yn bosibl dileu'r risgiau i gyd, mae gofyn bod materion urddas, preifatrwydd, dymuniadau rhieni a, lle bo'n berthnasol, dewis a diogelwch disgyblion yn cael y flaenoriaeth. Mae gofyn bod pob gweithiwr, beth bynnag fo'i swydd, yn cymryd camau rhesymol i ddiogelu iechyd a diogelwch ei hun ac eraill a chydymffurfio â chanllawiau polisi a gweithdrefnau.

Nodau

Bwriad y polisi yma yw:

- Diogelu hawliau a lles plant a phobl ifainc gyda golwg ar faterion urddas, preifatrwydd, dewis a diogelwch.
- Gofalu fod plant a phobl ifainc yn cael eu trin mewn ffordd gyson pan eu bod nhw'n cael gofal personol mewn dwy ganolfan neu ragor.
- Rhoi tawelwch meddwl i rieni/cynhalwyr bod y staff i gyd yn hyddysg ym maes gofal personol a bod ystyriaeth yn cael ei roi i bryderon unigol a bod gweithredu ar y pryderon yma os yw'n bosibl.
- Galluogi rhieni/cynhalwyr i fod yn rhan o unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â Gofal Personol eu plant.
- Darparu arweiniad, hyfforddiant, goruchwyliaeth a thawelwch meddwl addas i staff a gofalu arfer dda.
- Gofalu bod rhieni/cynhalwyr a phlant a phobl ifainc (lle bo'n berthnasol) ynglŷn â gwaith datblygu gweithdrefnau Gofal Personol.
- Gofalu bod yr ysgol/canolfan yn rhannu manylion protocol Gofal Personol unigol gydag asiantaethau eraill sy'n rhoi cymorth i'r disgybl.
- Darparu gwybodaeth a hyfforddiant addas ym maes Gofal Personol i staff.

Diffinio Gofal Personol

Mae gofal personol yn cynnwys rhoi cymorth i'r disgyblion hynny sy ddim yn gallu gwneud pethau drostyn nhw eu hunain - naill ai oherwydd eu hoedran ac aeddfedrwydd neu oherwydd oedi o ran datblygiad neu anabledd - gydag agweddau ar ofal personol. Efallai bydd gofyn cymorth ar blant a phobl ifainc sydd ag anableddau i symud a thrafod pethau, bwyta ac yfed ac agweddau ar ofal personol gan gynnwys:

- Ymolchi
- Gwisgo a dadwisgo (gan gynnwys nofio)
- Mynd i'r tŷ bach a misglwyf
- Ymolchi ar ôl baeddu
- Taenu eli haul

Bydd lefel y gofal sydd ei angen yn cael ei bennu gan Ymarferydd o'r Gwasanaethau Iechyd yn rhan o Gynllun Gofal Iechyd. Mae gofyn bod gweithiwr gofal iechyd yn y maes yn darparu hyfforddiant arbenigol, er mwyn i'r grŵp staff weithredu'r cynllun. Gall hyn gynnwys:

- Cymorth gyda bwyta (gan gynnwys bwydo trwy diwb)
- Rhoi meddyginiaeth (e.e. diazepam trwy'r rhefr)
- Rhaglen Ymarfer Ffisiotherapi/Codi a chario
- Tylino'r corff/ymadawith arbennig
- Gofalu am Draceotomi

- Rhoi meddyginiaethau lleol (e.e. eli ecsema)
- Bwydo trwy diwb

Ffordd o fynd ati i ofalu'r arfer orau

- Rheoli plant a phobl ifainc sydd ag anghenion gofal personol yn ofalus
- Y cyfan o'r staff sy'n darparu gofal personol yn cael hyfforddiant Diogelu Plant
- Yn unol â chanllawiau lechyd a Diogelwch, mae gofyn bod y staff i gyd sy'n gweithio gyda phlant hŷn a phobl ifainc sydd ag anableddau yn cael hyfforddiant Codi a Chario

Egwyddorion yr arfer orau:

Bod plant a phobl ifainc sydd angen gofal personol yn cael eu trin gyda pharch ar bob adeg; lles ac urddas y plentyn, person ifanc sydd o'r pwys mwyaf. Beth mae hyn yn ei olygu?

- gan roi ystyriaeth i'w oedran a'i allu, bydd y plentyn neu berson ifanc yn cael pob cymorth i gyrraedd y lefel uchaf posibl o annibyniaeth. Bydd staff yn annog pob plentyn i wneud cymaint ag sy'n bosibl drosto ef/drosti hi ei hun. Annog bod yn annibynnol a'i annog ef/hannog hi i ymgymryd ag agweddau ar ofal personol yn rhan o gynllun datblygu personol a chymdeithasol. Efallai bydd targedau'n cael eu pennu ar gyfer meithrin y medrau bywyd yma.
- darparu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer oedran ac anghenion unigol y plentyn neu berson ifanc, lle mae'n bosibl ac ymarferol.
- mae gofyn rhoi ystyriaeth i faterion ethnigrwydd, diwylliant, credoau a chrefydd, a phennu unrhyw anghenion arbennig sy'n ymwneud â gofal personol a chadw cofnod ohonyn nhw.
- bod yn ymwybodol o adweithiau plant neu berson ifanc, cyfathrebu ar lafar a chyfathrebu aneiriol ac unrhyw arwyddion a gytunwyd arnyn nhw ac ymateb i'r rhain.
- manteisio ar gyfleoedd yn ystod gofal personol i ddysgu plant a phobl ifainc ynglŷn â gwerth cyrff eu hunain, meithrin medrau diogelwch personol a gwella'u hunan-barch.
- byddwn ni'n parchu hawliau preifatrwydd pob plentyn. Byddwn ni'n rhoi ystyriaeth ofalus i sefyllfa pob plentyn yn gymorth i benderfynu nifer y cynhalwyr mae gofyn cael yn bresennol pan fod y plentyn yn mynd i'r tŷ bach. Lle bynnag bo'n bosibl, bydd un oedolyn yn gyfrifol am un plentyn oni bai fod rheswm dilys dros gael rhagor o oedolion yn

bresennol, (e.e.) pan fod anabledd corfforol yn gofyn cael mwy nag un aelod o staff i roi gofal, neu pan fod angen diogelu aelodau o staff. Mewn achosion o'r fath, rhaid nodi'r rhesymau dros hynny'n glir. Mewn ymgais i osgoi cysylltiadau gorgyfarwydd, yr arfer orau fyddai awgrymu rota o staff fyddai'n gallu ymgymryd â gorchwylion gofal personol plentyn/person ifanc. Bydd hyn yn dibynnu ar gymarebau staff mewn ysgolion unigol.

- Does dim angen dau oedolyn, o'r rheidrwydd, i ddarparu gofal personol. Dylai'r ail oedolyn gael gwybod pan fydd plentyn yn derbyn math o ofal personol a dylai'r ddau oedolyn arwyddo'r cofnod newid, ar ôl gorffen y dasg
- Eithriad i hyn yw os bydd yr angen am ddau aelod o staff wedi'i nodi mewn Asesiad Risg blaenorol.
- Mae gwerth cadarnhaol o gael aelodau o staff sy'n ferched ac sy'n ddyonion i roi gofal i blant. Fodd bynnag, mae gofyn rhoi ystyriaeth i briodoldeb rhyw'r aelod o staff o ran ymgymryd â gorchwylion gofal personol.
- Os bydd plentyn neu berson ifanc mewn gofid neu'n anhapus am dderbyn gofal gan aelod penodol o staff, bydd y mater yn cael ei ystyried a'r canlyniad wedi'i nodi. Byddwn ni'n cysylltu â rheini/cynhalwyr cyn gynted ag y bo modd yn rhan o'r broses, er mwyn datrys y broblem. Bydd newid i amserlenni staffio nes bo'r mater(ion) wedi'u datrys, er mwyn i anghenion y plentyn barhau o'r pwys mwyaf. Bydd rhagor o gyngor gan asiantaethau allanol os oes angen.

Llythyr yn rhoi caniatâd

Rhaid cael caniatâd rhiant/cynhaliwr cyn mynd ati i roi Gofal Personol o unrhyw fath. Mae gofyn bod yr aelodau hynny o staff sy'n gweithio gyda'r plentyn neu berson ifanc yn gwybod bod caniatâd wedi'i roi cyn mynd ati i roi Gofal Personol. (Atodiad A)

Diogelu Plant

Byddwn ni'n glynu wrth Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Pholisi Diogelu Plant yr Ysgol/Canolfan.

Os oes gan aelod o staff unrhyw bryderon am newidiadau corfforol mewn plentyn, person ifanc, e.e. marciau, cleisiau, poen ac ati; bydd ef/hi yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r rheolwr addas/swyddog â chyfrifoldeb ar gyfer materion diogelu plant ar unwaith.

Yn (Enw'r ysgol), enw'r person ydy

ENW:

MANYLION CYSWLLT.....

Os bydd plentyn yn gwneud cyhuddiad yn erbyn aelod o staff, byddwn ni'n dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 ochr yn ochr â Pholisi Diogelu Plant yr Ysgol/Canolfan.

Cafodd y polisi yma'i lunio mewn ymgynghoriad â staff a chorff llywodraethu (enw'r ysgol) a chafodd ei gymeradwyo ar :-

Dyddiad:.....

Bydd y polisi yma'n cael ei adolygu ar :-

.....

Llofnod: Pennaeth.....

Llofnod: Cadeirydd y Llywodraethwyr

Sian O Donovan
Cydylynydd Materion Diogelu